Ecumenical Group

In late 2015 the Ecumenical Group was set up by the Implementation Group to look specifically at the local, soft-touch ecumenical work that goes on in communities all over Wales as a result of Christian collaboration.

Ecumenism and the spirit of Christian collaboration it represents is such an important part of the life of the Church in Wales and *2020 Vision*. The Group identified many fruitful ecumenical relationships within communities which have grown organically by way of this natural Christian collaboration manifesting in interdenominational practical, task-focused projects such as food banks, Street Pastors schemes and ecumenical services.

The Ecumenical Group has highlighted some projects that it believes are worthy of wider publicity and are examples of how ecumenical working has achieved practical results for the benefit of the communities concerned, as well as the churches and chapels involved.

The Ecumenical Group wanted to showcase community-based projects such as these to demonstrate what ecumenical work is going on, to introduce ideas for projects that could be used elsewhere and, most importantly, to encourage other ecumenical initiatives to come into existence. To do this, the Group has commissioned a film to be produced and hopes that demonstrating the projects in this way will strongly communicate how rewarding working ecumenically can be, by pooling a community's Christian resources for the benefit of that community.

The Reverend Canon Huw Mosford
Chair of the Ecumenical Group

Youth Camp, Dyffryn Ardudwy

Urban Saints has run camps for young people in north Wales for over 25 years. For the last two years, the camp has been based on the beautiful north-west coast. The camp is run in partnership with the Church in Wales's diocese of Bangor and is open to any Christian group in north Wales. Young people come with their leaders and have opportunities to enjoy activities, crafts, fellowship and spiritual development.

Urban Chaplaincy, Colwyn Bay

The chaplaincy is a Christian organisation supported by the churches of Colwyn Bay and Rhos. Chaplains offer an impartial, non-judgemental and confidential ear to anyone who wishes to talk to them. They will work with any company or business outlet in the town. The chaplaincy aims to support the people who work in or visit the town centre, each with a variety of ongoing concerns or immediate needs. The chaplaincy exists to enhance the emotional and spiritual well-being of people of all faiths, or no faith.

Christmas - The Story, Barry

Christmas - The Story is a short production of the Nativity story performed by a group of interdenominational churches in Barry. The collaboration between the different churches has allowed a high-quality production to be performed multiple times per day throughout the festive period. It allows daytime shoppers, families and children to pop in to St. Mary's church to learn more about the true meaning of Christmas. There is a wonderful sense of community created by the churches working together and interacting with the public at this event.

Carmarthen NightLight

Carmarthen NightLight is a street support scheme which was set up by Carmarthen Cytûn after an approach from the police on behalf of the Carmarthenshire Community Safety Partnership. A small steering group of representatives from the Salvation Army, St. Peter's church, St. Mary's Roman Catholic church, Llangunnor church and Towy Community Church was set up and the first street team went out in January 2011. The project currently has 17 volunteers from ten local churches and chapels who go out on Saturday nights to provide water, first aid, flip flops and assistance to anyone in need.

Royal Welsh Showground Chaplaincy

Chaplains have been offering pastoral care and support to farmers and visitors at Wales's premier agricultural show for six years and have become a feature of the showground. The chaplaincy scheme was set up in 2009 at the Royal Welsh Show in response to a huge need identified on the showground, which attracts more than 200,000 visitors over the week in July. A dedicated team of lay people and clergy from different denominations provides care and support on and around the showground. Working across the Show's four days, as part of a team of 24 (from seven different denominations), the chaplains are available to provide people with pastoral care, attention, support and, simply, time just to chat. The scheme has now been expanded to cover every event that takes place on the showground during the year.

golwg 2020 vision

Grŵp Eciwmenaidd

Tua diwedd 2015 sefydlwyd Grŵp Eciwmenaidd gan y Grŵp Gweithredu i edrych yn benodol ar y gwaith eciwmenaidd cynnil lleol sy'n digwydd mewn cymunedau ledled Cymru o ganlyniad i gydweithio Cristnogol.

Mae Eciwmeniaeth a'r ysbryd cydweithio Cristnogol mae'n ei gynrychioli yn rhan allweddol o fywyd yr Eglwys yng Nghymru a *Golwg 2020*. Nododd y Grŵp lawer o drefniadau eciwmenaidd llwyddiannus mewn cymunedau sydd wedi datblygu'n naturiol drwy'r cydweithio Cristnogol hwn gan amlygu ei hun mewn prosiectau cydenwadol ymarferol sy'n canolbwyntio ar dasgau fel banciau bwyd, cynlluniau Bugeiliaid y Stryd a gwasanaethau eciwmenaidd.

Mae'r Grŵp Eciwmenaidd wedi tynnu sylw at brosiectau sy'n haeddu cyhoeddusrwydd ehangach ac sy'n enghreifftiau o sut mae gwaith eciwmenaidd wedi sicrhau canlyniadau ymarferol er budd y cymunedau dan sylw, yn ogystal â'r eglwysi a'r capeli cysylltiedig.

Roedd y Grŵp Eciwmenaidd am arddangos prosiectau cymunedol fel y rhain i ddangos pa waith eciwmenaidd sy'n digwydd, i gyflwyno syniadau am brosiectau y gellid eu defnyddio mewn mannau eraill ac, yn bwysicach, i annog sefydlu mentrau eciwmenaidd eraill. Er mwyn gwneud hyn, mae'r Grŵp wedi comisiynu ffilm ac yn gobeithio y bydd arddangos y prosiectau yn y ffordd hon yn dangos yn gryf cymaint o foddhad y gall rhywun ei gael o wneud gwaith eciwmenaidd, drwy grynhoi adnoddau Cristnogol cymuned er budd y gymuned honno.

Y Parchedig Ganon Huw Mosford
Cadeirydd y Grŵp Eciwmenaidd

Gwersyll Ieuenctid, Dyffryn Ardudwy

Mae Urban Saints wedi cynnal gwersylloedd i bobl ifanc yn y gogledd ers 25 mlynedd a mwy. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r gwersyll wedi'i leoli ar arfordir hardd y gogledd-orllewin. Cynhelir y gwersyll mewn partneriaeth ag esgobaeth Bangor ac mae'n agored i unrhyw grŵp Cristnogol yn y Gogledd. Mae pobl ifanc yn dod gyda'u harweinwyr ac yn cael cyfle i fwynhau gweithgareddau, crefftau, cwmnïaeth ac i ddatblygu'n ysbrydol.

Caplaniaeth Canol Tref Bae Colwyn

Sefydliad Cristnogol a gefnogir gan eglwysi Bae Colwyn a Rhos yw'r gaplaniaeth. Mae Caplaniaid yn cynnig clust gyfrinachol, anfeirniadol a diduedd i unrhyw un sydd am siarad â nhw. Maent yn fodlon gweithio ag unrhyw gwmni neu fusnes yn y dref. Amcan y gaplaniaeth yw cefnogi pobl sy'n gweithio yn, neu sy'n ymweld â chanol y dref, pob un gydag amrywiol bryderon neu anghenion cyfredol. Mae'r Gaplaniaeth yn bodoli i wella lles emosiynol ac ysbrydol pobl o bob cred neu rai heb ddim cred.

Christmas - The Story, Y Barri

Cynhyrchiad byr o stori'r Geni gan grŵp o eglwysi cydenwadol yn y Barri yw Christmas - The Story. Mae'r cydweithio rhwng eglwysi wedi eu galluogi i lwyfannu cynhyrchiad o safon uchel sawl gwaith y dydd dros gyfnod yr ŵyl. Mae siopwyr, teuluoedd a phlant yn gallu galw yn Eglwys y Santes Fair i ddysgu mwy am wir ystyr y Nadolig. Mae yna ymdeimlad gwych o gymuned yn cael ei greu wrth i'r eglwysi gydweithio a rhyngweithio â'r cyhoedd yn y digwyddiad hwn.

Carmarthen NightLight

Cynllun cymorth ar y stryd yw Carmarthen NightLight a sefydlwyd gan gangen Cytûn Caerfyrddin ar ôl i'r heddlu droi atynt ar ran Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Gaerfyrddin. Sefydlwyd grŵp llywio bach o gynrychiolwyr o blith Byddin yr Iachawdwriaeth, Eglwys San Pedr, Eglwys Gatholig y Santes Fair, Eglwys Llangynnwr ac Eglwys Gymunedol Tywi ac aeth y tîm stryd cyntaf allan ym mis Ionawr 2011. Ar hyn o bryd, mae gan y prosiect 17 o wirfoddolwyr o ddeg eglwys a chapel lleol sy'n mynd allan ar nos Sadwrn i ddarparu dŵr, cymorth cyntaf, fflip fflops a chymorth i unrhyw un mewn angen.

Caplaniaeth y Sioe Fawr

Mae Caplaniaid wedi bod yn cynnig gofal bugeiliol a chymorth i ffermwyr ac ymwelwyr ym mhrif sioe amaethyddol Cymru ers chwe blynedd ac yn rhan annatod o faes y sioe erbyn hyn. Sefydlwyd y cynllun caplaniaeth yn y Sioe Fawr yn 2009 mewn ymateb i angen sylweddol a nodwyd ar faes y sioe, sy'n denu dros 200,000 o ymwelwyr mewn wythnos ym mis Gorffennaf. Mae tîm pwrpasol o bobl leyg a chlerigion o enwadau gwahanol yn darparu gofal a chymorth ar faes y sioe a'r cyffiniau. Mae'r caplaniaid yn gweithio dros bedwar diwrnod y Sioe fel rhan o dîm o 24 (o saith enwad gwahanol) ac ar gael i ddarparu gofal bugeiliol, sylw, cymorth, ac amser i sgwrsio. Ehangwyd y cynllun i gynnwys pob digwyddiad sy'n cael ei gynnal ar faes y sioe yn ystod y flwyddyn.

golwg 2020 vision